

17, Stryd Fawr,
Llanberis,
CAERNARFON LL55 4EN
Gwynedd
21 Hydref 2016

Bethan Jenkins, AC

Cadeirydd : Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

Bae Caerdydd,

CAERDYDD CF99 1NA

Annwyl Bethan Jenkins,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn sgil datganiad Ken Skates AC ynglyn a'r adolygiad o wasanaeth treftadaeth yng Nghymru. Gwelaf fod ystyriaeth yn cael ei roi i'r posibilrwydd o uno trefniadau masnachol Amgueddfa Genedlaethol Cymru, efo trefniadau masnachol Cadw. Mae'r mater yma o ddiddordeb uniongyrchol i mi, fel y Cynghorydd Sir sydd – ers 1999 – yn cynrychioli pentref ac ardal Llanberis. Mae'r pentref yn gyrchfan poblogaidd ar gyfer cannoedd o filoedd o ymwelwyr yn flynyddol, ac mae'r diwydiant ymwelwyr yn gyflogwr pwysig yma. Yma, hefyd, mae Amgueddfa Lechi Cymru, sydd yn ran o Amgueddfa Genedlaethol Cymru ; ac yma hefyd mae Castell Dolbadarn, sydd yn eiddo i Cadw. Mae'r Amgueddfa yn cyflogi dros 30 o staff ; ers blynyddoedd, bellach, nid oes aelod o staff gan Cadw yn gwarchod y Castell, ac mae hynny'n ofid i mi.


Byddwn yn bryderus iawn, ac yn ofni'r canlyniadau, petai'r uno yma yn mynd yn ei flaen. Fy ofn i ydi y byddai hynny yn amharu yn sylweddol ar allu yr Amgueddfa Genedlaethol (ac felly yr Amgueddfa Lechi) i weithredu'n annibynol a hyderus yn yr ardal yma. Gadewch i mi roi esiamplau i chi. Yn gyntaf, pennaeth yr Amgueddfa Lechi sydd wedi bod yn darparu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer Fforwm Padarn a Partneriaeth Llanberis ers diwedd y 1990'au, a minnau'r cadeirio'r grwpiau yma ers cael fy ethol yn Gynghorydd Sir. Yn ail, mae swyddog marchnata yr Amgueddfa Lechi yn rhoi ei hamser a'i harbenigedd tuag at gynorthwyo Consortiwm Busnes Llanberis, sydd yn marchnata'r pentref a'r ardal.

Agwedd arall sydd yn bwysig i mi ydi'r busnes mae'r Amgueddfa Lechi yn ei roi i'r pentref a'r ardal. Rwy'n gwybod eu bod yn prynu (ar gyfer y cafffi) eu bara, eu teisennau, eu llefrith a'u cig gan fusnesau lleol. Ofnaf y byddai uno trefniadau masnachol yn mynd a'r gefnogaeth yma o'r ardal, a hynny er colled i'n busnesau ni yma. Beth hefyd am gyflogaeth ? Mae'r Amgueddfa yn gyflogwr da yn yr ardal, yn cyflogi staff drwy'r flwyddyn, yn rhoi cyfleoedd gwaith a swyddi haf i bobl ifanc yr ardal, ac wedi gwneud hyn ers ei hagor yn 1972. Mae'n rhaid diogelu hyn.

Yn bwysicach na phopeth, dyma'r amgueddfa genedlaethol ar gyfer y diwydiant llechi, y diwydiant ddaru greu a chynnal yr ardal yma, ac ardaloedd tebyg ar draws Gwynedd. Mae'r hyn sydd yn cael ei wneud yn yr Amgueddfa Lechi yn llawer iawn mwy na chyflwyno hanes yn unig. Ein ffordd ni o fyw, ein diwylliant ni, ein diddordebau a'n chwaraeon ni, ein crefftau ni, ein peiriannau a'n technoleg ni, daeareg ein creigiau ni, geirfa ein chwarelwyr ni, cynnwys ei cartrefi ni, dyfodol y diwydiant llechi : dyna sydd yn cael ei drafod yn yr Amgueddfa, ac mae'r cyfan yn llwyddo. Yn fy marn i, byddai'n gam annoeth i uno'r trefniadau masnachol, gan y byddai hynny'n sicr o amharu ar weithrediad yr Amgueddfa Lechi, a'i gallu hi i gynnwys a chyflwyno'r holl elfennau yma.

Diolch am roi ystyriaeth i'r sylwadau yma

Yr eiddoch yn gywir



Cynghorydd Trefor O Edwards

(Cynghorydd Annibynnol)

Copi : Steve George, Clerc Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, a Chyfathrebu